IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 16 MEHEFIN 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard a/ac Murphy |

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

4 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - THE VILLAGE, PENARTH ROAD

Ymgeisydd: Safia Bello Aguh mewn perthynas â The Village, 156 Penarth Road, Grangetown, Caerdydd CF11 6NJ.

**Y Cais**

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Safia Bello Aguh mewn perthynas â The Village, 156 Penarth Road, Grangetown, Caerdydd CF11 6NJ.

Mae'r Drwydded Safle bresennol yn caniatáu'r canlynol ar hyn o bryd:

1 Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:

Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 10:00 tan 00:00
Dydd Sul: 12:00 tan 23:30
Dydd y Nadolig: 12.00 tan 23:00
Dydd Gwener y Groglith: 12.00 tan 23.30
Nos Galan: 11.00 tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar 1 Ionawr.

2 Darparu lluniaeth hwyr y nos:

Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 23:00 tan 00:30
Dydd Sul, Dydd y Nadolig a Dydd Gwener y Groglith: 23:00 tan 00:00
Nos Galan: 23:00 tan 05:00

3. Cyflwynwyd y cais i amrywio canlynol:

Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle a chaniatáu agor: O ddydd Llun i ddydd Sul: 12.00 tan 02:00

Derbyniwyd gwrthwynebiadau gan y Cynghorwyr Thorne a Lister ond nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod. Cytunwyd ar bob sylw gan Heddlu De Cymru.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ysgrifenedig ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor un CYMERADWYO'r cais.

5 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - MOCKA LOUNGE, MILL LANE

Ymgeisydd: Mr Abedi, Mocka Lounge, 1-2 Mill Lane, Caerdydd, wedi'i gynrychioli gan Mr Phipps, Cyfreithwyr TLT

Partïon â Diddordeb Heddlu De Cymru: Y Rhingyll Justin Hardwicke and PC Tim Davies; David Stiles, Adran Trwyddedu Priffyrdd Cyngor Caerdydd.

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle, gan Mr Mohammed Ali Abedi mewn perthynas â Mocka Lounge, 1-2 Mill Lane, Caerdydd, CF10 1FL

1.1 Mae'r Drwydded Safle bresennol yn caniatáu'r canlynol ar hyn o bryd:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
   Dydd Sul i ddydd Iau: 10:00 tan 03:00
   Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 10:00 tan 04:00
   Nos Galan: 11.00am tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar 1 Ionawr.

2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio (tu fewn):

   O ddydd Llun i ddydd Sul: 10:00 tan 04:00

   Darparu lluniaeth hwyr y nos:

   Dydd Sul i ddydd Iau: 23:00 tan 03:00
   Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 23:00 tan 04:00

Caniateir awr ychwanegol ar yr amserau gorffen ar gyfer y diwrnodau canlynol (pan na fyddant ar ddydd Gwener neu ddydd Sadwrn) - Noswyl y Nadolig, Gŵyl San Steffan, Dydd Calan, Dydd Gŵyl Dewi, Gŵyl Sant Padrig.

Caniateir awr ychwanegol ar bob dydd Sul cyn Gŵyl Banc a Dyddiau Llun Gŵyl y Banc.

1. 2 Dyma gyflwyno'r cais amrywio canlynol:

a. Dileu amod 3(1)
b.
c. Amrywio amod 3(2) er mwyn ychwanegu'r geiriad 'rhwng 10:00 am a 11:00pm'
d. Amrywio amod 3(3) er mwyn ychwanegu'r geiriad 'rhwng 10:00 am a 11:00pm'
e. Amrywio amod 3(4) i ddarllen 'Caniateir defnydd yr ardal y tu allan ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol rhwng 10:00am a 11:00pm'.

Atodwyd copi o'r amodau presennol at yr adroddiad.

2. Hyrwyddo Amcanion Trwyddedu.

2.1 Atodwyd yr amodau ychwanegol gan yr ymgeisydd i gyrraedd yr amcanion trwyddedu i'r adroddiad.

3. Sylwadau Perthnasol

Cafodd sylwadau eu derbyn mewn perthynas â'r adroddiad

Dywedwyd wrth yr is-bwyllgor y cytunwyd ar dri phwynt cyntaf y cais amrywio felly roedd y gwrandawiad ar gyfer ystyried y pedwerydd pwynt sef:

*Amrywio amod 3(4) i ddarllen 'Caniateir defnydd yr ardal y tu allan ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol rhwng 10:00am a 11:00pm yn unig'.*

Ar ôl tafod geiriad yr amod, ystyriwyd mai yr hyn a geisiwyd yn y bôn oedd dileu'r cyfyngiad o 23:00.

<u>Sylwadau gan Bartïon â Diddordeb</u>

Dywedodd y Rhingyll Hardwick mai barn yr Heddlu oedd nad oeddent eisiau i'r lle y tu allan gael ei ddefnyddio ar gyfer yfed fertigol ar ôl 23:00, oherwydd bryd hynny câi'r dodrefn y tu allan ei gymryd i mewn. Roedd yr heddlu yn gwrthwynebu ar sail atal trosedd ac anhrefn a diogelwch y cyhoedd.

Cyfeiriwyd at y cynlluniau sydd ar y gweill i greu diwylliant caffi Ewropeaidd yn holl ardal Mill Lane o dan y Strategaeth Gwella Busnes; câi'r holl gynlluniau eu hystyried yn unol â'r strategaeth gwrthderfysgaeth.

Darparwyd ystadegau trosedd i'r is-bwyllgor, a oedd yn dweud mai ar ôl 23:00 y gyflawnir 53% o'r holl droseddau; gan gynnwys 17 allan o 26 o ymosodiadau a 29 all o 39 o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Dywedwyd mai Mill Lane yw un o bedair ardal broblemus yng Nghaerdydd.

Dywedodd y Rhingyll Hardwicke nad yw yfed fertigol yn cefnogi datganiad polisi trwyddedu'r Cyngor.

Cyfeiriwyd at logiau digwyddiadau o Mocka Lounge a oedd yn cynnwys 16 o ddigwyddiadau ar wahân ac 1 digwyddiad o dorri'r drwydded. Nodwyd bod 80% o'r digwyddiadau yn digwydd ar nos Sadwrn a bod staff diogelwch wedi galw'r heddlu ar 4 o'r 16 digwyddiad yn unig. Ystyriodd yr Heddlu, pe bai'r holl ddigwyddiadau wed'u riportio iddynt, byddent wedi ymgysylltu â'r Mocka Lounge o dan y system goleuadau traffig; gan edrych yn ôl ar y digwyddiadau, rhoddwyd 22 pwynt i Mocka Lounge, sy'n ei roi yn y categori Coch.

Dywedodd David Stiles wrth yr is-bwyllgor, o dan y Ddeddf Priffyrdd adran 155, caniateir byrddau a chadeiriau ar y priffyrdd o 10.00 tan 23:00 yn unig, ac wedyn aiff yn briffordd a fabwysiedir eto. Nodwyd ymhellach, ar ôl 23:00, cafodd y ffin y man awyr agored ei lleihau yn ôl gan tua 2m, i fod yn fan ysmygu.

Darparodd y Rhingyll ddata Achosion Brys i'r is-bwyllgor a oedd wedi'i gynhyrchu gan y GIG, a oedd wedi logio un digwyddiad yn dweud ei fod wedi digwydd yn Mocka Lounge, nid oedd unrhyw adroddiad wedi'i wneud i'r Heddlu ond roedd yn cyd-fynd ag un o'r digwyddiadau a gofnodwyd yn log digwyddiadau Mocka Lounge. Dywedodd y Rhingyll Hardwicke y nodwyd yn y log bod lefel o rym wedi'i defnyddio i

symud rhywun o’r safle a dyfynnwyd y gyfraith berthnasol ynglŷn â hyn, ychwanegodd hefyd, os mai dyma oedd yn wir, dylid fod wedi galw'r Heddlu.

Gofynnwyd i’r is-bwyllgor i edrych ar y lluniau hyrwyddo a gymerwyd o wefan y Mocka Lounge ynghyd â rhestrau diodydd a hysbysebion hyrwyddo diodydd a gofynnwyd iddynt a oeddent yn unol â’r amcanion trwyddedu.

Dywedwyd wrth yr is-bwyllgor y cafodd hysbysiad ei gyflwyno i’r DPS a bod ymchwiliad yn parhau.

Gofynnodd y Rhingyll Hardwicke i'r cais am gyfyngiad o 23:00 gael ei wrthod a bod yfed alcohol yn y man allanol yn dod i ben am 23:00

<u>Sylwadau ar geisiadau</u>

Ystyriodd Mr Phipps fod rhywfaint o’r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Heddlu yn anghymesur, cafodd rhywfaint o’r wybodaeth ei chyflwyno am y tro cyntaf yn y cyfarfod, nad oedd yn deg nac yn dderbyniol ac nid oedd yn fodlon ar ddefnyddio ystadegau. Ystyriodd fod y sylw wedi bod yn niweidiol ac nid oedd mewn perthynas â’r cais a wnaed.

Ailadroddodd Mr Phipps mai dim ond y pedwerydd amod oedd yn cael ei ystyried. Dywedodd fod Mr Abedi wedi rhedeg Mocka Lounge yn Mill Lane am y naw mlynedd diwethaf, dyma oedd y safle cyntaf i gynnig gwasanaeth bwrdd, a gwnaeth safleoedd eraill yr un peth wedyn, roedd yn man allanol yn sylweddol yn ardal Mill Lane erbyn hyn. Mae’r safleoedd i naill ochr a'r llall i Mocka Lounge yn caniatáu yfed alcohol anghyfyngedig yn y man allanol o fewn eu horiau trwyddedu; felly teimlai nad oedd hyn yn deg ar gyfer y Mocka Lounge.

Ar hyn o bryd mae cyfyngiad o 23:00 ar gyfer yfed alcohol yn y man allanol. Mae’n rhaid i fyrddau a chadeiriau gael eu cymryd i mewn ar yr adeg hon a chânt eu pentyrru a’u rhoi ar reseli yn unol â hyn; ni fi unrhyw broblemau ynglŷn â hyn. Ni fwriadwyd creu man yfed fertigol, ond nid oes dewis ganddynt, heblaw am gymryd y byrddau a’r cadeiriau i mewn yn unol â gofynion trwyddedu’r Adran Priffyrdd.

Cytunodd Mr Phipps bod rhaid gofyn i bobl ymadael pan fyddant yn camymddwyn ac y defnyddir grym corfforol lle y bo’n briodol, ac os yw’n briodol, gelwir yr heddlu; ychwanegodd mai’r heddlu sydd ar ddyletswydd rodio ar hyd Mill Lane fydd y rhai y gelwir arnynt yn hytrach na galw swyddogion allan.

Dywedodd Mr Phipps eu bod wedi gofyn am ragor o wybodaeth y tu ôl i’r data Achosion Brys oherwydd nid yw’r crynodeb yn darparu digon o wybodaeth.

Ynglŷn â nifer y digwyddiadau, dywedodd Mr Phipps nad yw 26 digwyddiad yn llawer iawn wrth ystyried y cannoedd o filoedd o bobl sy'n pasio trwy Mill Lane.

Cyfeiriodd Mr Phipps at yr ymosodiad rhywiol ar aelod o staff ac esboniodd, ar ôl siarad â’r rheolwyr, penderfynon nhw ofyn i’r dyn ymadael, wedyn aeth yn ymosodol tua at swyddogion yr heddlu a oedd ar ddyletswydd rodio yn Mill Lane a chafodd ei arestio; pan ofynnodd y swyddogion i’r aelod o staff a oedd hi eisiau mynd ar ôl y mater, penderfynodd ei bod hi eisiau gwneud hynny. Dywedodd Mr Phipps na

wnaeth y staff unrhyw beth o'i le yn yr ymagwedd hon gan beidio â galw'r Heddlu pan ddigwyddodd.

Ynglŷn â'r adolygiad diweddar, esboniodd Mr Phipps y cafodd ei alw ddeuddydd yn unig cyn y gwrandawiad hwn ar gais am amrywiad, nid oedd dim o'r gwaith papur wedi'i anfon trwodd ac roedd hyn yn ymddangos fel cyd-ddigwyddiad; ystyriodd fod y panel yn cael gwybod amdano am resymau niweidiol.

Dywedodd Mr Phipps y byddai'r cais hwn am amrywiad yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu'n gadarnhaol oherwydd ar hyn o bryd, gofynnir i bobl fynd i mewn neu gael eu diodydd wedi'u cymryd i ffwrdd am 23:00, a all achosi problemau pan fyddant yn gweld pobl ar y safleoedd ar bob ochr yn aros y tu allan. Ychwanegodd eu bod ond yn ceisio bod yn gyson â'r busnesau eraill o'u cwmpas, ac y dylai'r panel edrych ar y sylw gwreiddiol a anfonwyd i mewn a'r cais am amrywiad ei hun yn unig.

Dangoswyd ddarn o ffilm i'r is-bwyllgor o Mill Lane a safleoedd o gwmpas Mocka Lounge gyda phobl yn aros y tu allan i yfed alcohol ar ôl 23:00, a hefyd Mocka Lounge yr adeg hon, a oedd yn wag y tu allan.

Crynodeb

Heddlu De Cymru

Dywedodd y Rhingyll Hardwicke fod Heddlu De Cymru yn gofyn y caiff y cais i amrywio'r oriau ei wrthod a bod defnydd y man allanol ar gyfer yfed alcohol yn parhau o 10:00 tan 23:00, gyda'r holl yfed alcohol yn y man allanol yn dod i ben ar ôl 23:00. Ychwanegodd nad oedd yn ystyried bod y rheolwyr â'r gallu i reoli'r ardal ar ôl yr amser hynny. Dywedodd bod y safleoedd cyfagos yn fwytai ac mae gan y rhai sy'n glybiau wahanol gyfyngiadau arnynt; caiff rhai eu monitro.

Ychwanegodd bod Heddlu De Cymru yn pryderi, pe câi'r amrywiad ei roi, byddai yfed fertigol o bosibl tan 04:30 am a fyddai'n cael effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu.

Ymgeisydd

Dywedodd Mr Phipps na allai'r safleoedd cyfagos fod yn fwytai oherwydd bod rhaid iddynt hefyd gymryd y byrddau a'r cadeiriau i mewn erbyn 23:00. Amlinellodd berthnasedd y Polisi/Arweiniad 9.4

Dywedodd Mr Phipps fod yr heddlu'n bryderus am allu'r rheolwyr i reoli'r man allanol ar ôl 23:00, nid am bobl yn aros y tu allan ar ôl 23:00.

Anogodd yr is-bwyllgor i edrych ar y cais yn gymesur ac yn rhesymol, ac nad oedd unrhyw broblemau a oedd yn benodol i'r Mocka Lounge. Cytunodd fod angen edrych ar y rhestr o ddiodydd a newid rhai o enwau'r diodydd gan nad ydynt yn creu argraff dda o'r safle, cytunodd hefyd y dylid adolygu'r ffotograffau cyhoeddusrwydd ar y wefan.

I gloi, dywedodd nad oedd gofyn i bob ddod i mewn neu gael eu diodydd wedi'u cymryd nid oedd 23:00 yn hyrwyddiad cadarnhaol o'r amcanion trwydded ac nid oedd yn rhesymol.

PENDERFYNWYD – bod yr is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, bod yr is-bwyllgor yn CANIATÁU'r cais gyda'r addasiad canlynol i amod 3(4):

'Caniateir defnydd y man allanol ar gyfer alcohol yn ystod yr oriau trwyddedadwy'

6 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - MS JONES, MERTHYR ROAD

Tynnwyd y cais yn ôl.

7 : HAPCHWARAE CEISIADAU PEIRIANT HAWLEN

Pennu'r ceisiadau canlynol am amrywio trwyddedau ar gyfer peiriannau hapchwarae ynglŷn â Safleoedd Trwyddedig:

- Newbridge, Abergele Road, Trowbridge, Caerdydd.
- Village Inn, Croescardarn Road, Caerdydd.

PENDERFYNWYD: caniatáu.